

Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel
Cyngor Gwynedd: Mawrth 2026

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad 2
Crynodeb Gweithredol 3
Y Panel 5
Cwmpas a Dull 5
Trefniadaeth Wleidyddol 6
Trefniadaeth Gorfforaethol 7
Heriau Lleol a Chenedlaethol 8
Cryfderau a Meysydd Arloesi 9
Gofyniad Perfformiad: Mae mesurau llywodraethu effeithiol ar waith 10
Gofyniad Perfformiad: Y graddau y mae'r Cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon 11
Gofyniad Perfformiad: Arfer ei swyddogaethau'n effeithiol 18
Cydnabyddiaeth 23

1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn unol â'r dyletswyddau perfformiad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, comisiynodd Cyngor Gwynedd Asesiad Perfformiad Panel (APP) trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

1.2 Cwblhawyd yr asesiad ar y safle dros gyfnod o bedwar diwrnod, a ddaeth i ben ar 13 Mawrth 2026 a chyflwynwyd adborth i'r Cyngor yn egluro'r prif argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

1.3 Cynhaliwyd yr asesiad yn seiliedig ar y ddogfen gwmpasu y bu i'r Cyngor gytuno arni a methodoleg APP CLlLC, a ddatblygwyd gyda'r sector.

1.4 Yn unol â'r canllawiau statudol, nid archwiliad nac arolygiad yw'r APP ac nid yw'n ceisio dyblygu'r gwaith a wneir gan reoleiddwyr a chyrff eraill. Er bod y panel wedi cynnal asesiad corfforaethol, dylid ystyried yr asesiad hwn ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill fel hunanasesiad y Cyngor ei hun, adolygiadau archwilio mewnol ac adolygiadau archwilio a rheoleiddio allanol.

1.5 Er mwyn sicrhau fod yr APP wedi mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf i'r sefydliad, cynhyrchodd y Cyngor ddogfen gwmpasu'n amlinellu nifer o feysydd ychwanegol i'w hystyried gan y panel. Amlinellir y meysydd ffocws cytunedig hyn ym mharagraff 4.2.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cryno o gasgliadau'r panel a adroddir yn ôl eithriadau.

1.7 Fel rhan o'i waith paratoadol, ystyriodd y panel y canfyddiadau a oedd ar gael yn gyhoeddus a'r gwaith parhaus mewn perthynas â'r Adolygiad Ymarfer Plant annibynnol sy'n cael ei gynnal yng Nghyngor Gwynedd, fel rhan o'i ddarllen ymlaen llaw er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth gyd-destunol briodol. Fodd bynnag, gan gydnabod bod y Cyngor wedi sefydlu panel arbenigol ar wahân i archwilio'r mater hwn yn fanwl, bu'r panel APP yn ofalus i beidio â dyblygu gwaith nac ymyrryd â chylch gwaith, cwmpas na llinellau ymholi'r gwaith hwnnw. Yn hytrach, canolbwyntiodd y panel yn llwyr ar drefniadau llywodraethu corfforaethol, perfformiad a threfniadaeth ehangach y Cyngor, gan sicrhau gwahaniaeth clir rhwng yr APP statudol a gwaith yr Adolygiad Ymarfer Plant.

Crynodeb Gweithredol

2.0 Casgliad Cyffredinol

2.1 Yn gyffredinol, er ei fod yn gweithredu o fewn amgylchedd economaidd ac ariannol heriol a rennir gan gynghorau ledled Cymru, canfu'r panel fod Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei ddyletswyddau perfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Cyngor yn dangos trefniadau llywodraethu cadarn yn gyffredinol, perthnasoedd adeiladol a pharchus rhwng aelodau a swyddogion, ac ymrwymiad clir i welliant parhaus. Ochr yn ochr â'r cryfderau hyn, nododd y panel amrywiaeth o feysydd lle byddai datblygiad pellach yn gwella gallu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau'n effeithiol ac yn gynaliadwy dros y tymor canolig i'r hirdymor. Gyda'i gilydd, mae canfyddiadau'r panel yn tynnu sylw at nifer o themâu rhyng-gysylltiedig sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol y Cyngor, ei gapasiti sefydliadol, rheoli perfformiad a risg, a'i ddull o weithredu trawsnewidiol.

2.2 Nododd y panel y balchder amlwg yng Ngwynedd a rennir gan staff, aelodau etholedig a phartneriaid lleol, ynghyd ag ymrwymiad cyfunol cryf i weithio gyda'i gilydd er budd y sir. Adlewyrchwyd yr ymdeimlad hwn o le a phwrpas a rennir yn gyson mewn trafodaethau ar draws gwasanaethau a sectorau, gyda rhanddeiliaid yn pwysleisio gwreiddiau dwfn y Cyngor yn ei gymunedau a'i ymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol Gwynedd.

2.3 Mynegodd partneriaid ar lefel leol a rhanbarthol barch at arweinyddiaeth y Cyngor a'i ddull cydweithredol, gan gydnabod Cyngor Gwynedd fel presenoldeb adeiladol, dibynadwy ac y gellir ymddiried ynddo o fewn strwythurau rhanbarthol. Tynnodd llawer sylw at barodrwydd y Cyngor i ymgysylltu'n agored, rhannu gwybodaeth, cydweithio ar faterion cymhleth ac, lle bo'n briodol, ysgwyddo rôl arweiniol ar ran y sector a'r rhanbarth, gan gynnwys ei gyfraniad at sefydlu a chefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn barhaus. Roedd brwdfrydedd amlwg ymhlith partneriaid i adeiladu ar y perthnasoedd hyn wrth i heriau a chyfleoedd barhau i esblygu.

2.4 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau ariannol sy'n fwyfwy cyfyngol a heriau di-baid o ran y gweithlu, gan atgyfnerthu pwysigrwydd cyflymu ei ymdrechion trawsnewid sefydliadol. Trwy adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes a mynd i'r afael â'r gwaith hwn gyda momentwm o'r newydd, bydd y Cyngor mewn sefyllfa well i gryfhau ei wydnwch, addasu'n hyderus i gyfyngiadau ariannol, ac achub ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer twf hirdymor, cynaliadwy.

2.5 Wrth i'r Cyngor ddechrau edrych ymlaen at iteriad nesaf ei Gynllun Corfforaethol, bydd yn bwysig ystyried trawsnewid, cynllunio'r gweithlu, a chynaliadwyedd ariannol fel blaenoriaethau rhyng-gysylltiedig. Bydd dull cyfannol yn helpu i sicrhau bod model gweithredu'r sefydliad i'r dyfodol yn gydlynol, yn ymarferol, ac yn cyd-fynd â'r cyfeiriad strategol y mae'r Cyngor yn dymuno ei osod ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

2.6 Er bod Cyngor Gwynedd wedi sefydlu ystod o drefniadau rheoli perfformiad a risg, nid ydynt eto'n gweithredu fel fframwaith corfforaethol cwbl unedig. Mae amrywiadau mewn arfer adrannol, diffyg strategaeth risg gorfforaethol glir ac archwaeth risg wedi'i diffinio, a chysylltiadau anghyson rhwng perfformiad, risg a chyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i gael golwg gydlynol, sefydliadol gyfan o

gyflawni a phwysau sy'n dod i'r amlwg, ac i ddangos yn glir sut mae'r materion hyn yn cael eu datrys ar lefel gorfforaethol.

2.7 Nododd y panel nifer o ddatblygiadau cadarnhaol, gan gynnwys trefniadau her perfformiad strwythuredig, adrodd gwell i'r Cabinet, a chamau diweddar i gryfhau rôl craffu mewn rheoli perfformiad, a chafodd y rhain oll groeso eang gan y rhai a ymgysylltodd â'r panel. Byddai mynd i'r afael â'r bylchau sy'n weddill drwy uno trefniadau rheoli perfformiad ymhellach a chryfhau dull corfforaethol y Cyngor o reoli risg yn gwella llywodraethu ac yn cefnogi penderfyniadau mwy gwybodus.

2.8 Mae'r aliniad cryf rhwng arweinyddiaeth gorfforaethol a gwleidyddol yn cael ei ategu gan gydweithredu adeiladol a phroffesiynol rhwng y Cabinet ac uwch swyddogion, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau cydlynol a chyflawni'n gyson. Mae'r berthynas hon yn ased i'r sefydliad ac yn cefnogi ymdeimlad o bwrpas a rennir ar draws haenau arweinyddiaeth. Wrth i'r perthnasoedd gwaith agos hyn barhau, bydd yn bwysig eu bod yn dal i gael eu cefnogi gan drefniadau clir ar gyfer tryloywder, pellter proffesiynol priodol a chraffu cadarn, gan gynnwys dulliau adborth sy'n dangos sut y mae her ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi llywio penderfyniadau, fel bod yr her adeiladol bresennol yn parhau'n weladwy a bod safonau llywodraethu presennol yn cael eu cynnal.

3.0 Y Panel

3.1 Comisiynwyd y cymheiriaid canlynol gan CLILC i gynnal yr asesiad. Cytunwyd ar y detholiad o gymheiriaid yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar sail addasrwydd eu sgiliau a'u profiad:

- Cadeirydd Annibynnol: Emlyn Dole (Cyn Arweinydd Cyngor: Cyngor Sir Gâr)
- Uwch Aelod y Cymheiriaid: Gwyneth Ellis (Cyngor Sir Ddinbych)
- Uwch Swyddog y Cymheiriaid: Rob Thomas (Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg)
  Cymar o'r Sector Cyhoeddus, Preifat neu Wirfoddol Ehangach: Siân-Elin Flint Freel (Ymgynghorydd)

3.2 Cefnogwyd y panel gan Joseph Lewis (Uwch Swyddog Polisi: Gwelliant) a Sarah Evans (Uwch Swyddog Cefnogi: Gwelliant).

4.0 Cwmpas a Dull

4.1 Roedd gofyn i'r panel asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn:

- Arfer ei swyddogaethau'n effeithiol
- Defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; a
- Gweithredu trefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau'r uchod.

4.2 Nododd y Cyngor y cwestiynau canlynol i'w hystyried gan y panel fel rhan o'r asesiad:

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth: I ba raddau mae'r arweinwyr gwleidyddol ac uwch swyddogion yn gosod cyfarwyddyd clir ac yn annog newid, ac a yw'r strwythurau llywodraethu a'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau'n ddigon cadarn i sicrhau canlyniadau hirdymor gwell ar gyfer preswylwyr?

Cynllunio Strategol, Adnoddau a Chapasiti: A oes gennym ni'r capasiti a'r gallu i ddarparu ein blaenoriaethau strategol, ac a yw'r adnoddau sydd ar gael wedi'u halinio'n effeithiol â'r blaenoriaethau hyn?

Monitro, Mesur a Gwerthuso Perfformiad: A oes gennym ni drefniadau priodol ar waith i fonitro ac asesu perfformiad y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid a thrigolion i sicrhau gwelliant parhaus?

4.3 Fel rhan o'r asesiad, cynhaliodd y panel adolygiad o ddogfennau, data, adroddiadau allanol a gwybodaeth berthnasol arall y Cyngor. Roedd y rhan honno o'r adolygiad a gynhaliwyd ar y safle'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda'r budd-ddeiliaid canlynol:

- Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet
- Y Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151
- Penaethiaid Adrannau a Swyddogion Allweddol y Cyngor
- Aelodau o'r Gwrthbleidiau
- Cynrychiolwyr Staff
- Undebau Llafur

- Y Fforwm Fusnes
- Prif Swyddogion Gweithredol Rhanbarthol
- Cadeirydd/Is-gadeirydd: Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cadeirydd/Is-gadeirydd: Pwyllgorau Craffu
- Cynrychiolwyr Trydydd Sector
- Trigolion
- Cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned
- Cynrychiolwyr Cyngor yr Ifanc
- Cynrychiolwyr o bartneriaid hyd braich y Cyngor.

5.0 Trefniadaeth Wleidyddol

5.1 Ar adeg Asesiad Perfformiad y Panel, dyma oedd cyfansoddiad y Cyngor:

Enw'r Grŵp	**Nifer**
Plaid Cymru	45
Annibynnol	21
Gwynedd yn Gyntaf	2
Aelod Unigol	1
Cyfanswm	**69**

5.2 Ar adeg Asesiad Perfformiad y Panel, dyma oedd cyfansoddiad y Cabinet:

Portffolio	**Cynghorydd**	**Ymlyniad Gwleidyddol**
Arweinydd y Cyngor	Nia Jeffreys	Plaid Cymru
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd	Menna Trenholme	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg	Llio Elenid Owen	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Addysg	Dewi Jones	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Cyllid	Huw Wyn Jones	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Amgylchedd	Craig ab Iago	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant	Dilwyn Morgan	Plaid Cymru
Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	June Jones	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo	Paul Rowlinson	Plaid Cymru

Aelod Cabinet Economi a Chymuned	Medwyn Hughes	Plaid Cymru

5.3 Mae gan Gyngor Gwynedd y Pwyllgorau Craffu canlynol;

- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgorau Craffu Gofal

6.0 Trefniadaeth Gorfforaethol

6.1 Cyflwynodd Cyngor Gwynedd ddogfen gwmpasu gychwynnol i'r panel yn amlinellu ei strwythur corfforaethol. Roedd y ddogfen hon yn egluro bod y Tîm Rheoli Corfforaethol yn cynnwys haen uchaf o reolwyr y Cyngor. Mae'r tîm yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Adran a'r Swyddog Monitro, ac yn gyfrifol am ddarparu blaenoriaethau strategol y Cyngor a sicrhau llywodraethu cadarn ar draws y sefydliad.

6.2 Dafydd Gibbard yw Prif Weithredwr y Cyngor. Penodwyd Dafydd i'r rôl ym mis Mai 2021. Mae rôl y Prif Weithredwr yn cynnwys:

- Arweinyddiaeth: Gweithio gydag Aelodau Etholedig y Cyngor i sicrhau arweinyddiaeth a chyfarwyddyd cryf a gweledol. Annog a galluogi rheolwyr i gymell ac ysbrydoli eu staff i gyflawni amcanion a gytunwyd gan y Cyngor.

- Cyfeiriad Strategol: Gwireddu blaenoriaethau strategol a amlinellir gan Aelodau Etholedig a budd-ddeiliaid y Cyngor, gan sicrhau fod staff yn deall ac yn dilyn y rhain.

- Cynghori ar bolisïau: Gweithredu fel prif ymgynghorydd ar bolisïau i Aelodau Etholedig y Cyngor.

- Partneriaethau: Arwain a datblygu partneriaethau cryf gyda gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a grwpiau gwirfoddol eraill ar draws Gwynedd a thu hwnt er mwyn gwella ansawdd bywyd yn y sir.

- Llywodraethu: Goruchwylio a chydlynu gwaith rheoli cyllid a pherfformiad, rheoli risg, rheoli pobl a rheoli newid yn y Cyngor.

6.3 Y Prif Weithredwr sy'n arwain y cyfeiriad strategol, effeithlonrwydd gweithredol a chyngor ar bolisi i Aelodau, yn ogystal â threfniadau herio perfformiad yn yr adrannau a'r meysydd canlynol:

- Addysg
- Economi a Chymuned
- Cynllun Digidol
- Gwasanaethau Corfforaethol
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Blaenoriaethu Adnoddau

- Trefniadau Llywodraethu
- Cyd-Bwyllgorau Corfforedig
- Cynllunio Rhag Argyfwng
- Diwylliant Gweithlu

7.0 Heriau Cenedlaethol a Lleol

7.1 Mae Cyngor Gwynedd yn parhau i weithredu mewn cyd-destun cenedlaethol a lleol heriol sy'n darparu cefndir pwysig i ganfyddiadau'r panel mewn perthynas â pherfformiad, llywodraethu a gwerth am arian. Yn yr un modd â nifer o awdurdodau gwledig yng Nghymru, mae'r Cyngor yn wynebu cyfuniad o newid demograffig, galw cynyddol am wasanaethau, a phwysau ariannol parhaus, sydd i gyd yn siapio ei amgylchedd gweithredu ac yn dylanwadu ar y dewisiadau sydd ar gael i'r sefydliad.

7.2 Mae'r tueddiadau demograffig yn cyflwyno heriau arbennig i'r sir. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Ngwynedd, gydag amcanestyniadau'n dangos cynnydd sylweddol mewn preswylwyr 65 oed a hŷn dros y degawdau nesaf, ynghyd â gostyngiad yn y boblogaeth a llai o bobl ifanc oedran gweithio. Mae'r tueddiadau hyn eisoes yn cael effaith ar y galw am wasanaethau, yn arbennig mewn gofal cymdeithasol, darpariaeth iechyd a thai, ac yn rhoi pwysau ar allu'r Cyngor i recriwtio a chadw gweithlu cynaliadwy.

7.3 Mae cysylltiad agos rhwng y pwysau demograffig hyn a sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor. Nododd y panel, er bod Cyngor Gwynedd wedi parhau i osod cyllidebau cytbwys, cyflawnwyd hyn yn erbyn cyd-destun o orwariant cyson mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw, gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant, gwastraff a llety brys. Yn ddiweddar, lleddfwyd gwariant adrannol drwy danwariant corfforaethol a mesurau untro, wedi'u cefnogi ar adegau gan gyllid diwedd y flwyddyn, gan ganiatáu ar gyfer cydbwyso sefyllfaoedd alldro cyffredinol. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflawni cyfanswm o £47m o arbedion effeithlonrwydd ac addasiadau gwasanaeth ers 2015.

7.4 Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlygu graddfa'r her sy'n wynebu'r Cyngor. Er gwaethaf hanes cryf o ddarparu arbedion, mae'r cynllun yn nodi bylchau cyllido sylweddol dros y tair blynedd nesaf, gan adlewyrchu cynnydd parhaus mewn galw, pwysau chwyddiannol a rhagolygon o gyllid cyfyngedig. Er bod gan y Cyngor lefelau cymharol iach o gronfeydd wrth gefn, mae dibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn ac atebion untro i liniaru pwysau strwythurol yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau cynaliadwyedd ariannol tymor hwy.

7.5 Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn dangos cyd-destun gweithredu heriol ac ansicr. Mae cynnydd parhaus mewn galw, yn enwedig mewn gwasanaethau statudol, ynghyd â chyfyngiadau ariannol, yn cynyddu pwysigrwydd blaenoriaethu clir, rheoli risg effeithiol a goruchwylio perfformiad cadarn. Mae'r cyd-destun hwn yn amlygu lefel yr her sy'n wynebu'r Cyngor mewn perthynas â chyflawni uchelgeisiau'r Cynllun Corfforaethol a chynnal gwytnwch gwasanaethau dros y tymor canolig a'r hirdymor.

8.0 Cryfderau a Meysydd Arloesi

8.1 Er bod yr heriau ariannol a demograffig a amlinellir yn Adran 7 yn parhau'n sylweddol, cydnabu'r panel hefyd ymatebion cadarnhaol ac uchelgeisiol ar draws y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu, arloesi mewn gwasanaethau a chynaliadwyedd hirdymor. Clywodd y panel dystiolaeth o

<u>Astudiaeth Achos:</u>

Cynllun Yfory

Mae Cynllun Yfory, cynllun prentisiaethau'r Cyngor, yn cynrychioli cryfder clir yn ymagwedd Gwynedd tuag at gynllunio'r gweithlu. Mae'r cynllun wedi'i alinio'n uniongyrchol â heriau mwyaf dybryd y Cyngor mewn perthynas â'r gweithlu ac yn darparu llwybr strwythuredig i bobl ifanc ddatblygu sgiliau proffesiynol gan aros yn y sir. Mae'n cynnig cyfleoedd wedi'u targedu mewn proffesiynau allweddol megis Peirianneg Sifil, Cynllunio, Ecoleg, Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd a Diogelwch, gan gefnogi'r Cyngor i ddatblygu talent cynaliadwy ar gyfer y dyfodol mewn meysydd lle mae recriwtio ar draws y sector yn dod yn gynyddol anodd. Mae'r cynllun yn adlewyrchu arfer gorau cydnabyddedig o ran datblygu capasiti proffesiynol i'r dyfodol ac yn dangos ymrwymiad rhagweithiol yn seiliedig ar le i feithrin talent leol.

Astudiaeth Achos: Llechen Lân

Mae Llechen Lân yn darparu dull clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddeall a chynllunio ar gyfer cynaliadwyedd gofal cymdeithasol pobl hŷn yng Ngwynedd i'r dyfodol. Daw â modelu demograffeg, gweithlu ac ariannol at ei gilydd i ragweld y galw dros y 10-20 mlynedd nesaf, gan gymharu patrymau presennol Gwynedd gyda chynghorau gwledig eraill a gosod liferi ymarferol i leihau'r pwysau ar wasanaethau traddodiadol. Mae'r gwaith yn amlygu rôl atal ac arloesi, yn cynnwys cryfhau dulliau cymunedol ac sy'n seiliedig ar gryfderau, ehangu gofal a alluogir gan dechnoleg a thaliadau uniongyrchol, a chynyddu opsiynau llety addas fel tai gofal ychwanegol, wedi'u cefnogi gan drefniadau cynllunio, comisiynu a datblygu gweithlu hirdymor sy'n fwy clir.

Mae hefyd yn amlygu sut mae'r Cyngor eisoes yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i gefnogi ei uchelgeisiau gofal cymdeithasol, ac yn darparu argymhellion o ran sut gellir datblygu hynny ymhellach.

ymdrechion ymarferol i gryfhau gwytnwch sefydliadol ac ymateb i bwysau'r dyfodol. Mae Cynllun Yfory a Llechen Lân yn enghreifftiau o'r dull ehangach hwn, gan ddangos sut mae'r Cyngor yn datblygu capasiti proffesiynol lleol ac yn defnyddio cynllunio sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ystyried cynaliadwyedd gwasanaethau allweddol yn y dyfodol.

Trosolwg o’r Canfyddiadau

9.0 Gofyniad Perfformiad: Mae’n arfer ei swyddogaethau’n effeithiol

9.1 Daeth adolygiad y panel o'r adroddiadau rheoleiddio o'r ddwy flynedd ddiwethaf, a chyfweliadau ar y safle, i'r casgliad bod tystiolaeth yn dangos bod y Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.

9.2 Mae gan Gyngor Gwynedd Gynllun Corfforaethol sy’n amlinellu gweledigaeth a blaenoriaethau’r Cyngor tan 2028, gan alinio ei waith gyda’r Nodau Lles, Ffyrdd o Weithio ac Egwyddor Cynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae'n trefnu uchelgeisiau'r Cyngor yn saith maes blaenoriaeth, pob un wedi'i gefnogi gan brosiectau wedi'u targedu gyda'r nod o wella canlyniadau i drigolion a chryfhau lles hirdymor. Mae'r cynllun yn adlewyrchu cymunedau Cymraeg eu hiaith unigryw y sir ac yn cydnabod yr angen am ymatebion yn seiliedig ar leoedd.

9.3 Ymgysylltodd y panel â nifer o bartneriaid strategol allweddol Cyngor Gwynedd, gan gynnwys Mantell Gwynedd, Coleg Menai, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (y Cyd-bwyllgor Corfforedig), a Phrif Weithredwyr Cyngor Ynys Môn a Chyngor Wrecsam. Amlygodd y trafodaethau hyn aeddfedrwydd partneriaethau’r Cyngor a chryfder y fforymau sy’n eu cefnogi. Cadarnhaodd partneriaid eu hymrwymiad i gydweithio a sicrhau bod blaenoriaethau lleol yn derbyn sylw mewn modd cydlynol ac effeithiol. Mewn llawer o achosion, fe wnaeth y sgyrsiau hyn hefyd amlygu cyfraniadau strategol Cyngor Gwynedd at ddatblygiad fforymau rhanbarthol ar draws y gogledd orllewin a rhanbarth ehangach y gogledd, yn enwedig pan oedd y fforymau hyn yn gymharol newydd.

9.4 Nododd y panel hefyd dealltwriaeth dda ar draws yr awdurdod o werthoedd corfforaethol y Cyngor, a gaiff eu mynegi’n glir drwy Ffordd Gwynedd fel ethos craidd y sefydliad a thrwy ymddygiad staff ar bob lefel, gan gynnwys rheolwyr gweithredol a thimau rheng flaen. Nododd y panel hefyd nifer o ganlyniadau penodol a gyflawnwyd trwy Ffordd Gwynedd gan gynnwys cyfraniad cadarnhaol at y modd y mae'r Cyngor yn cyflawni'r dyletswyddau perfformiad a ystyriwyd gan y panel, gan gynnwys mentrau fel sefydlu'r Rhwydwaith Rheolwyr ac Arweinwyr Tîm ac ymestyn cynlluniau prentisiaethau a hyfforddeion, a sefydlu'r Academi Gofal.

9.5 Fodd bynnag, clywodd y panel hefyd fod Ffordd Gwynedd wedi colli rhywfaint o'i eglurder a'i effaith wreiddiol. Er bod staff ar bob lefel yn cydnabod enw cryf Ffordd Gwynedd a'r bwriad cadarnhaol sy'n sail iddo, roedd llawer yn teimlo nad oedd ei bwrpas mor amlwg bellach. Clywodd y panel bryderon bod elfennau o newid cenhadaeth wedi dod i'r amlwg, gyda rhagor o bobl yn ystyried Ffordd Gwynedd fel strategaeth fewnol ychwanegol yn hytrach na ffordd unedig o weithio. Yn y cyd-destun hwn, disgrifiodd rai aelodau staff ymdeimlad ei fod bellach yn sefyll ochr yn ochr, ac ar adegau yn cystadlu, gyda strategaethau sefydliadol allweddol eraill, megis cynlluniau datblygu a thrawsnewid y gweithlu, yn hytrach na darparu fframwaith diwylliannol clir sy’n siapio darpariaeth ar draws y sefydliad yn gyson.

9.6 Mae asesiad y panel yn dangos aliniad da rhwng tîm yr uwch swyddog gweithredol ac arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor. Mae'r aliniad hwn yn arbennig o amlwg yn eu hymrwymiad cyffredin i flaenoriaethau'r Cyngor a'u dealltwriaeth o’r heriau

ariannol a demograffig. Dangosodd y trafodaethau gydag arweinwyr gwleidyddol eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan swyddogion, gan gynnal y gofod a'r hyder i ddarparu cyfeiriad gwleidyddol clir i swyddogion.

9.7 Roedd y panel yn cydnabod bod cynlluniau gweithlu Cyngor Gwynedd yn pwysleisio datblygiad cyflogaeth hirdymor i'r dyfodol drwy ei raglenni prentisiaethau, hyfforddeion a datblygiad proffesiynol. Mae'r llwybrau hyn yn helpu pobl ifanc i ddechrau gweithio mewn swyddi gwasanaeth cyhoeddus arbenigol, megis cynllunio, iechyd yr amgylchedd, peirianneg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau rheoleiddio, ar adeg lle mae'r awdurdod mewn perygl o golli arbenigedd sylweddol wrth i staff profiadol ymddeol. Drwy fuddsoddi mewn llwybrau hyfforddi strwythuredig, mae'r Cyngor yn cefnogi talent leol, yn mynd i'r afael â phrinder sgiliau ac yn cryfhau gwytnwch sefydliadol, gan sicrhau fod ganddo'r gallu technegol sydd ei angen i fodloni cyfrifoldebau statudol nawr ac i'r dyfodol.

9.8 Wrth i'r Cyngor baratoi ar gyfer fersiwn nesaf ei Gynllun Corfforaethol, mae cyfle i ddatblygu cryfderau'r dull cyfredol yn seiliedig ar themâu ymhellach, a datblygu gweledigaeth gliriach, fwy hirdymor, ar gyfer Gwynedd a'i chymunedau. Byddai ffocws mwy strategol ar flaenoriaethau uchaf y Cyngor, gyda chefnogaeth ystyrlon gan staff, aelodau etholedig a thrigolion lleol, yn helpu i sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu anghenion a dyheadau Gwynedd fel lle. Bydd alinio'r gwaith hwn yn llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Trawsnewid y Cyngor yn darparu fframwaith cydlynol sy'n cysylltu adnoddau, cyfeiriad strategol a chanlyniadau, gan alluogi'r sefydliad i gynllunio'n hyderus ar gyfer y dyfodol.

9.9 Argymhellion

1a	Dylai Cyngor Gwynedd adeiladu ar y dull presennol sy'n seiliedig ar themâu wrth baratoi a datblygu'r Cynllun Corfforaethol nesaf gyda ffocws ar: • Cynllunio hirdymor • Gosod gweledigaeth ar gyfer Gwynedd a'r gwerthoedd sy'n hanfodol i'w gyflawni • Sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer y Cyngor a Gwynedd fel lle • Cynnwys staff, aelodau a'r gymuned ehangach i ddatblygu a chyflawni Cynllun Corfforaethol sy'n seiliedig ar le • Alinio'n llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Trawsnewid y Cyngor

10.0 Gofyniad Perfformiad: Y graddau y mae'r Cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon

10.1 Ar y cyfan, canfu'r panel fod Cyngor Gwynedd yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol o fewn cyd-destun ariannol a demograffig heriol. Fodd bynnag, mae graddfa a pharhad y pwysau a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn enwedig gorwariant rheolaidd mewn gwasanaethau allweddol a dibyniaeth gynyddol ar fesurau untro, yn amlygu'r angen am ddull cliriach a mwy unedig o gynllunio strategol a thrawsnewid sefydliadol. Er bod y

Cyngor yn elwa o arweinyddiaeth ymroddedig, hanes cryf o gyflawni cynilion a phartneriaethau sefydledig, nid yw'r cryfderau hyn yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y sefydliad eto. Roedd y panel o'r farn y byddai'r Cyngor yn elwa o fynegi dull trawsnewid clir ar draws y sefydliad sy'n dod â gweithgarwch gwella presennol at ei gilydd mewn un fframwaith cydlynol. Dylai dull o'r fath gydnabod a gwneud y mwyaf o werth partneriaid allanol, gan sicrhau bod gweithgarwch trawsnewid yn seiliedig ar brofiadau a gallu sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol Gwynedd ac yn cael ei ymgorffori a'i gefnogi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i gryfhau gwytnwch ariannol hirdymor.

10.2 Mae'r adran hon hefyd yn ystyried un o feysydd ffocws ychwanegol y Cyngor a gytunwyd ar gyfer yr asesiad, sy'n gysylltiedig â Chynllunio Strategol, Adnoddau a Chapasiti. Drwy wneud hyn, nid yn unig mae'r panel wedi archwilio p'un a oes gan Gyngor Gwynedd y gallu mewnol i ddarparu ei flaenoriaethau strategol, maent hefyd wedi archwilio p'un a yw'n gwneud defnydd effeithiol o'r ystod lawn o adnoddau sydd ar gael iddo. Nododd y panel na all y Cyngor gyflawni ei uchelgeisiau ar ei ben ei hun ac y dylid deall adnoddau yn ehangach na gallu ariannol yn unig, gan gynnwys cyfraniad partneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Mae'r adran hon felly'n archwilio'r graddau y mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn defnyddio'r partneriaethau allanol hyn fel rhan hanfodol o'r ddarpariaeth adnoddau ac yn ymateb i raddfa'r pwysau ariannol, demograffig a gwasanaeth y mae'n ei wynebu.

Adran Adnoddau Ariannol

10.3 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cyngor Gwynedd yn weithredol am dair blynedd, ac fe'i cydnabyddir gan y Cyngor fel dogfen 'fyw'. Er bod y gyllideb flynyddol gysylltiedig yn cael ei hadnewyddu bob blwyddyn ac yn cael ei chefnogi gan gynllun incwm a gwariant manwl, mae elfen tymor canolig y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn parhau i fod yn asesiad lefel uchel o sefyllfa ariannol y Cyngor dros gyfnod o dair blynedd. Bydd y rhagolwg hwn yn cael ei ddiweddaru wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael, gan gynnwys newidiadau i ragdybiaethau ariannol cenedlaethol a lleol, amcanestyniadau incwm, pwysau gwasanaeth a chynlluniau arbedion.

10.4 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn parhau i fod yn heriol, gan ragweld bwlch ariannol cronnol o £40 miliwn ar draws 2026/27 - 2028/29 yn absenoldeb ymyrraeth bellach. Er bod cyllideb 2026/27 wedi'i chydbwyso trwy gyfuniad o gynnydd yn y Dreth Gyngor (5.32%), ceisiadau gwasanaeth lleol a chyllidebu corfforaethol darbodus, mae gwytnwch ariannol yn dibynnu fwyfwy ar gronfeydd wrth gefn a mesurau untro. Mae pwysau o fewn gofal cymdeithasol, llety brys a gorwariant ar wasanaethau gwastraff yn parhau i fod yn strwythurol o ran natur ac mae'r panel o'r farn y byddant yn ymofyn ail-ddylunio gwasanaethau mewn modd trawsnewidiol, yn hytrach nag fel addasiadau cynyddrannol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o gynlluniau a strategaethau i ymateb i'r pwysau yma, yn cynnwys Cynllun Gweithredol Tai a Strategaeth Gwastraff, sy'n nodi mesurau i leihau'r gorwariant presennol.

10.5 Nododd y panel fod gan y Cyngor hanes cryf o ddarparu arbedion cyffredinol, gan gyflawni 93% (£43 miliwn) o'r arbedion arfaethedig ers 2015. Fodd bynnag, er gwaethaf yr hanes cryf cadarnhaol hwn, nododd y panel fod gorwariant rheolaidd wedi parhau ar draws sawl maes gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan adlewyrchu effaith gynyddol newid demograffig - yn enwedig poblogaeth sy'n heneiddio a lefelau cynyddol o anghenion cymhleth - sy'n rhoi pwysau parhaus ar wasanaethau ac yn golygu nad yw'r ddibyniaeth bresennol ar gamau lliniaru tymor byr yn gynaliadwy.

10.6 Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal sefydlogrwydd ariannol tymor byr; ond mae'n parhau i wynebu pwysau strwythurol sylweddol a fydd yn ymofyn trawsnewidiad sefydliadol parhaus a chynllunio ariannol hirdymor cryfach. Yn ddiweddar, mae gorwariant adrannol rheolaidd - yn enwedig o fewn Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion, Gwastraff a Llety Brys - wedi dod yn nodwedd sefydledig o sefyllfa ariannol y Cyngor, gyda gorwariant o £6.6 miliwn yn 2024/25 wedi'i liniaru trwy danwariant corfforaethol eithriadol a grantiau hwyr gan Lywodraeth Cymru yn unig. Er bod darpariaeth arbedion cronnol y Cyngor yn parhau i fod yn gryf, gyda 93% o'r arbedion arfaethedig wedi'u gwireddu ers 2015, mae pwysau lefel gwasanaeth yn parhau i ddwysáu, gan adlewyrchu twf parhaus mewn galw a chwyddiant yn hytrach na ffactorau tymor byr neu untro.

Adran Drawsnewid

10.7 Roedd y panel yn cydnabod bod arweinyddiaeth gorfforaethol a gwleidyddol yn cydnabod yr angen am drawsnewid sefydliadol fel elfen hanfodol o gyflawni cynaliadwyedd hirdymor.

10.8 Er bod y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ystod eang o brosiectau sy'n canolbwyntio ar newid ar draws ei saith maes blaenoriaeth - yn arbennig o fewn Gwynedd Effeithlon - canfu'r panel bod y mentrau hyn yn cael eu cyflwyno i raddau helaeth fel gweithredoedd gwasanaeth neu thematig unigol yn hytrach nag fel rhan o un rhaglen drawsnewid gydlynol. Mae tystiolaeth o Adroddiad Perfformiad a Gwariant 2025-26 y Cyngor yn dangos bod gweithgarwch gwella sylweddol ar y gweill, gan gynnwys datblygiadau digidol, mesurau effeithlonrwydd, mentrau'r gweithlu ac ailgynllunio gwasanaethau, gyda chefnogaeth trefniadau perfformiad a chraffu sefydledig. Fodd bynnag, mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei ddisgrifio a'i asesu fesul prosiect yn bennaf, a byddai'n fuddiol esbonio'n iawn sut mae mentrau unigol gyda'i gilydd yn cyfrannu at uchelgais a rennir, sef trawsnewid, neu at fynd i'r afael â chynaliadwyedd ariannol a sefydliadol tymor hwy.

10.9 O ganlyniad, daeth y panel i'r casgliad bod anghysondeb o ran uchelgeisiau trawsnewid y Cyngor ar hyn o bryd, a bod gweithgarwch mewn perthynas â newid yn canolbwyntio ar gyflawni prosiectau ar wahân yn hytrach nag fel rhaglen newid gydlynol ar gyfer y sefydliad cyfan. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i ddangos yn glir sut mae gweithgarwch gwella'n cael ei flaenoriaethu, ei ddilyniannu a'i dargedu mewn ymateb i bwysau ariannol, demograffig a gweithredol parhaus. Roedd y panel o'r farn y byddai sefydlu fframwaith trawsnewid mwy integredig a throsfwaol yn helpu i egluro bwriad hirdymor y Cyngor, cryfhau aliniad ar draws gwasanaethau, a darparu cipolwg cliriach o sut mae prosiectau unigol yn cyfrannu at

gyfeiriad teithio a rennir. Yn hanfodol, dylai dull o'r fath fod wedi'i alinio'n llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gan sicrhau bod gweithgarwch trawsnewid yn cael ei lywio'n uniongyrchol gan raddfa'r her ariannol ac yn cael ei gefnogi gan asesiad realistig o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni newid cynaliadwy.

10.10 Roedd y panel yn teimlo bod gan y Cyngor gyfle clir i wneud defnydd mwy effeithiol o Ffordd Gwynedd wrth lunio ei flaenoriaethau trawsnewid yn y dyfodol. Er bod yr ethos yn parhau i fod yn rhan werthfawr a chydnabyddedig o hunaniaeth y sefydliad, roedd y panel yn llai clir ynglŷn â sut mae Ffordd Gwynedd yn cyfrannu at weledigaeth flaengar y Cyngor ar hyn o bryd, gan nodi bod ei bwrpas strategol wedi dod yn llai clir dros amser.

10.11 Byddai ailosod Ffordd Gwynedd o fewn fframwaith trawsnewid ar draws y sefydliad yn cryfhau ei berthnasedd a'i alluogi i weithredu fel angor diwylliannol gwleidyddol dros newid. Byddai gwneud hyn yn atgyfnerthu disgwyliadau mewn perthynas ag ymddygiadau arweinyddiaeth, penderfyniadau a chynlluniau gwasanaeth, ac yn sicrhau fod dull diwylliannol y Cyngor yn cael ei integreiddio'n llawn gyda'i heriau ariannol, gweithlu a gweithredol hirdymor. Byddai'r aliniad hwn hefyd yn helpu i sefydlu ethos mwy cyson ar draws adrannau, gan alluogi Ffordd Gwynedd i weithredu fel sbardun uniaethol o gyfeiriad y Cyngor i'r dyfodol yn hytrach na chysyniad y cyfeirir ato mewn modd anghyson ar draws y sefydliad.

Staff

10.12 Yn ystod yr asesiad ar y safle, cyfarfu'r panel ag ystod o staff o wahanol adrannau ar draws y sefydliad. Mynegodd staff farn gadarnhaol am weithio i'r Cyngor, gan dynnu sylw at y manteision o fod yn rhan o awdurdod sy'n siarad Cymraeg, y diwylliant o gydbwysedd cryf rhwng bywyd a gwaith, a dull hygyrch ac agored y tîm arwain.

10.13 Nododd staff fod y Rhwydwaith Rheolwyr ac Arweinwyr Tîm yn cael ei chydnabod o fewn y sefydliad fel fforwm gwerthfawr ar gyfer ymgysylltiad staff. Mae'n darparu platfform effeithiol ar gyfer rhannu mewnbwn sefydliadol, cryfhau cyfathrebu, a chefnogi dealltwriaeth gyson o flaenoriaethau corfforaethol ar draws adrannau.

Uwch Arweinyddiaeth

10.14 Nododd y panel fod gan y Prif Weithredwr bortffolio strategol eang, ac amlinellir hyn yn 6.1 – 6.4, sy'n cwmpasu meysydd fel Addysg, Economi a Chymuned, Digidol, Gwasanaethau Corfforaethol, Gwasanaethau Cyfreithiol, llywodraethu, cynllunio argyfwng, a diwylliant y gweithlu. Er bod hyn yn adlewyrchu arweinyddiaeth bersonol gref, mae graddfa'r cyfrifoldeb yn sylweddol ar gyfer un rôl. Mae'r panel o'r farn bod bellach angen i'r Cyngor gryfhau ac ehangu ei allu strategol uwch i sicrhau bod y sefydliad yn gallu rheoli ei uchelgeisiau moderneiddio, ymateb yn effeithiol i bwysau sy'n dod i'r amlwg, a chynnal gwytnwch ar y lefel uchaf.

10.15 Daw'r panel i'r casgliad bod capasiti uwch arweinyddiaeth Cyngor Gwynedd yn fain iawn o ystyried cwmpas a chymhlethdod y sefydliad. Mae ehangder y cyfrifoldebau a'r llinellau adrodd i'r Prif Weithredwr, ochr yn ochr â'r gofynion yn sgil y trawsnewid mawr a rheoli newid, pwysau sy'n gwrthdaro, rheolaeth ariannol gynaliadwy, rheoli risgiau, heriau gweithlu, a'r angen i gynnal y ddarpariaeth a'r perfformiad, yn golygu

bod capasiti'r arweinyddiaeth strategol yn annigonol yn nhermau ymdriniaeth a dosraniad. Mae hyn yn cynyddu'r risg o orddibynnu ar unigolion allweddol, yn lleihau capasiti sefydliadol i fwrw ymlaen â blaenoriaethau trawsbynciol ac yn cyfyngu ar gyflymder a chysondeb y gwaith o gynllunio, llywodraethu a chyflawni trawsnewid.

1b	Dylai Cyngor Gwynedd adolygu capasiti ei arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol a chynllunio ar gyfer yr hirdymor.
2a	Sicrhau bod y gweithlu yn greiddiol i'r gwaith cynllunio strategol a thrawsnewidiol yn y dyfodol, gan ddod â'r gwahanol feysydd ymarfer sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor ynghyd, er mwyn sicrhau dull Cyngor cyfan o gynnwys ac ymgysylltu mewnol.

Partneriaethau

10.16 Nododd y panel fod Cyngor Gwynedd yn cydnabod y pwysigrwydd o ddefnyddio adnoddau cyfunol ei bartneriaid i gyflawni ei amcanion. Tynnodd y panel sylw at berthynas gref a sefydledig y Cyngor â'r trydydd sector drwy Mantell Gwynedd, ochr yn ochr ag adnewyddiad parhaus y Cytundeb Compact ffurfiol gyda'r sector.

10.17 Nododd y panel fod y bartneriaeth hon wedi cael gafael ar £24.4 miliwn o gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ers 2021. Nododd y panel fod Mantell Gwynedd wedi awgrymu bod ei Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) rhwng £1.85 a £3.36 am bob £1 o gyllid a dderbynnir ar brosiectau penodol.

10.18 Er bod y partneriaethau hyn yn cynrychioli cryfder sefydliadol clir, pwysleisiodd y panel bod angen cysylltu'r potensial cydweithredol hwn yn fwy penodol â'r heriau ariannol a gweithredol sylweddol a amlinellir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Roedd y panel o'r farn y byddai aliniad dyfnach rhwng gweithio mewn partneriaeth, ailgynllunio gwasanaethau, a chynllunio ariannol hirdymor yn helpu'r Cyngor i sicrhau defnydd llawn o allu cyfunol partneriaid lleol i fodloni'r pwysau strwythurol hyn a chefnogi model gweithredu mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

10.19 Fodd bynnag, sylwodd y panel hefyd nad yw'r lefel hon o ffocws strategol yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws pob sector; er bod trefniadau gwaith partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol wedi'u sefydlu a'u strwythuro'n dda, nid yw'r trefniadau cyfatebol gyda'r gymuned fusnes wedi'u datblygu cystal ac nid oes ganddynt yr un lefel o gydlyniant a bwriad strategol.

"Er mwyn cyrraedd amcanion Cynllun Corfforaethol Cyngor Gwynedd, mae cydweithio effeithiol a defnyddio adnoddau lleol yn effeithlon yn hanfodol. Trwy gydweithio â'r trydydd sector, nod Cyngor Gwynedd yw sicrhau elw a budd leol i drigolion, gan gael y gwerth gorau am arian a manteisio ar y gwerth ychwanegol y mae sefydliadau'r trydydd sector yn ei gynnig."

"Compact" (Cytundeb Partneriaeth) Drafft Cyngor Gwynedd a'r 3ydd Sector

Y Gymuned Fusnes

10.20 Nododd y panel fod gan y Cyngor ystod o fecanweithiau ar waith i ymgysylltu â busnesau, a bod y trefniadau hyn wedi esblygu dros amser. Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio adnoddau ychwanegol yn ddiweddar i gryfhau ymgysylltiad â'r sector, gan gynnwys Swyddog Ymgysylltu penodedig, Bwletin Busnes ac Arolwg Blynyddol. Er bod y datblygiadau hyn yn gadarnhaol, roedd y panel o'r farn bod y dull cyffredinol yn parhau i fod ar gam cymharol gynnar ac nad yw eto mor gydlynol nac mor ddatblygedig yn strategol â'r trefniadau cyfatebol gyda phartneriaid eraill y Cyngor.

10.21 Dywedodd cynrychiolwyr y gymuned fusnes leol wrth y panel fod perthnasoedd â'r Cyngor yn gwella, ond bod y trefniadau ymgysylltu presennol yn dal i gael eu profi'n aml fel rhai anffurfiol ac yn canolbwyntio ar faterion gweithredol. Roedd rhai o'r gyfwelwyd o'r farn nad oedd mecanwaith clir na ffurfiol ar waith i'r gymuned fusnes ehangach gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor neu godi pryderon sy'n dod i'r amlwg, gan awgrymu bod angen gwneud mwy i gryfhau gweledededd, strwythur a chyrhaeddiad y trefniadau presennol. Ar adeg yr asesiad, nid oedd y Cyngor yn gweithredu fforwm busnes sefydlog; yn lle hynny, cynullodd swyddogion grŵp ad hoc at ddibenion yr asesiad, a oedd yn cynnwys sefydliadau a oedd eisoes yn gysylltiedig â'r awdurdod yn bennaf.

10.22 Yn y cyd-destun hwn, croesawodd y panel ymrwymiad y Cyngor yn ei Strategaeth Economaidd Gwynedd ddrafft, i sefydlu Fforwm Economi Gwynedd ffurfiol. Byddai trefniant mwy systematig a chynhwysol o'r math hwn yn cryfhau dealltwriaeth y Cyngor o anghenion economaidd lleol, yn cefnogi cynllunio strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn atgyfnerthu ei rôl fel arweinydd economaidd sy'n seiliedig ar leoedd.

10.23 Yn fwy cyffredinol, roedd y panel o'r farn bod cysylltiad agos rhwng y materion hyn a chwestiwn ehangach y Cyngor am gapasiti ac adnoddau. Er mwyn cyflawni uchelgeisiau strategol y Cyngor, bydd angen dealltwriaeth well o'r ystod lawn o adnoddau sydd ar gael ar draws y Cyngor, gan gydnabod y bydd partneriaid lleol yn hanfodol er mwyn cyflawni newid parhaus. Mae'r perthnasoedd adeiladol a sefydledig a ddatblygwyd gyda'r trydydd sector yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnig model y gellid ei ymestyn i sectorau eraill a'i gymhwyso'n ehangach ar draws gogledd Cymru.

10.24 Pwysleisiodd y rhai a gafodd gyfweliad hefyd yr angen am ddull mwy rhagweithiol ac allblyg o hyrwyddo Gwynedd fel cyrchfan ar gyfer buddsoddi. Er bod y sir yn elwa o gydnabyddiaeth brand genedlaethol gref, gwelwyd presenoldeb cyfyngedig y Cyngor mewn digwyddiadau masnach mawr a fforymau economaidd fel cyfle a gollwyd i osod Gwynedd fel lleoliad cystadleuol ar gyfer mentrau newydd. Mynegodd rhai busnesau ansicrwydd ynghylch dull ehangach y Cyngor o fuddsoddi mewnol, gan gynnwys cyfrifoldebau arweinyddiaeth a phrosesau ymgysylltu.

Cwmnïau Hyd Braich

10.25 Nododd y panel berthynas gref ac adeiladol rhwng y Cyngor a Byw'n Iach, y cwmni hyd braich sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau hamdden ar ran yr awdurdod. Mae cynrychiolwyr o Byw'n Iach wedi dangos dealltwriaeth glir o ddyheadau strategol y Cyngor a sut mae gwaith Byw'n Iach yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau hynny. Ystyriwyd bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol, gyda phrosiectau cydweithredol parhaus yn adlewyrchu ymrwymiad a rennir i ymestyn ffocws y sefydliad ar les ehangach ynghyd â darpariaeth hamdden draddodiadol.

10.26 Fodd bynnag, nododd y panel bryderon am gynaliadwyedd ariannol Byw'n Iach. Nid yw'r cwmni'n gweithredu ar sail fantoledig ar hyn o bryd ac mae'n parhau i ddibynnu ar gefnogaeth ariannol ategol gan y Cyngor. Mae'r sefyllfa wedi cyfrannu at rwystredigaeth o fewn y sefydliad ynghylch adnoddau prin a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â hyn o ran gallu darparu a thyfu ei gynnig lles. Roedd y panel yn ystyried y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â'r problemau hyn fel rhan o'i ymrwymiad ehangach i drawsnewid gwasanaethau a datblygu dull gweithredu cynaliadwy yn ariannol i'r dyfodol.

Undebau Llafur

10.27 Yn ystod eu cyfnod ar y safle, bu i'r panel estyn gwahoddiad i bob UndebLlafur a gydnabyddir gan y Cyngor i gymryd rhan mewn trafodaethau fel rhan o'r adolygiad. Roedd yr adborth a gafwyd yn adlewyrchu perthynas waith gyffredinol gadarnhaol ac adeiladol gyda'r Cyngor, gyda chynrychiolwyr Undebau Llafur yn disgrifio amgylchedd sy'n gwella ar gyfer deialog agored ac ymgysylltu. Yn benodol, clywodd y panel adborth cadarnhaol am gyfarfod diweddar a drefnwyd gan y Prif Weithredwr gyda chydweithwyr o'r Undebau Llafur, a groesawyd fel cyfle am drafodaeth agored a gonest, gan alluogi materion i gael eu harchwilio'n adeiladol ac mewn ysbryd o dryloywder.

10.28 Roedd adborth yr Undebau Llafur yn amlygu'r berthynas gyda'r Cyngor fel un broffesiynol ac adeiladol, gan nodi bod cynnydd wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf i gryfhau ymgysylltiad a gwella dealltwriaeth ar y cyd. Rhoddwyd enghreifftiau i'r panel o achosion lle'r oedd camau wedi'u cymryd i gynnwys yr Undebau Llafur yn gynharach yn y broses o ddatblygu polisi, gan gynnwys mewn perthynas â'r Polisi Cyffuriau ac Alcohol, a ystyriwyd yn gam cadarnhaol tuag at ymgynghori mwy ystyrlon.

10.29 Er gwaethaf y gwelliannau hyn, clywodd y panel hefyd bod cwmpas i gryfhau trefniadau cyfathrebu, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid sefydliadol ac ailstrwythuro. Roedd yr adborth yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu cliriach a mwy cyson ynghylch y rhesymau dros newid, sut yr oedd safbwyntiau a fynegwyd drwy ymgynghori yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau, ac amseriad y camau allweddol o fewn prosesau ailstrwythuro. Byddai mynd i'r afael â'r meysydd hyn yn helpu i atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed hyd yma ac i wreiddio ymhellach egwyddorion partneriaeth gymdeithasol effeithiol ar draws y sefydliad.

Trigolion

10.30 Yn ystod eu cyfnod ar y safle, cyfarfu'r panel â drigolion lleol mewn fforwm a drefnwyd gan y Cyngor. Roedd y fforwm yn cynnwys aelodau o Banel Trigolion y Cyngor, ac roedd pob un ohonynt wedi derbyn gwahoddiad i fynychu.

10.31 Ar y cyfan, disgrifiodd drigolion brofiadau cadarnhaol o wasanaethau'r Cyngor, yn arbennig mewn perthynas â darpariaeth rheng flaen statudol, a ystyriwyd yn ymatebol ac yn effeithiol. Gwelodd y panel hyn fel cryfder pwysig, o ystyried y cyd-destun gweithredu heriol. Ynghyd â hyn, mynegodd drigolion rywfaint o ansicrwydd ynghylch cyfeiriad cyffredinol y Cyngor, arferion cyfathrebu a'r cysondeb o ran y gwerthoedd a adlewyrchir ar draws y sefydliad.

10.32 Roedd nifer o drigolion yn teimlo nad oedd y prosesau cyfathrebu mewn perthynas â chyfeiriad strategol y Cyngor yn ddigon clir, a disgrifiwyd bod prosesau ymgysylltu ac ymgynghori braidd yn unochrog ac nad oedd llawer o gyfle i gyflwyno adborth am ddylanwad eu mewnbwn ar benderfyniadau. Roedd safbwyntiau cymysg o ran meysydd polisi penodol, gyda rhai'n cwestiynu pa mor gyson y caiff uchelgeisiau a nodwyd, megis hyrwyddo'r Gymraeg, eu hadlewyrchu mewn polisïau a chynlluniau ehangach. Ar y cyfan, mynegodd drigolion ddyhead am gyfathrebu cliriach, rhagor o dryloywder mewn perthynas â blaenoriaethau, a chyfleoedd gwell i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol.

2b	Dylai Cyngor Gwynedd ddatblygu dull trawsnewidiol unedig sy'n gosod cyfeiriad cyffredinol a blaenoriaethau newid y sefydliad yn glir. Dylai'r dull hwn: • Weithredu ar lefel strategol sefydliad cyfan • Gwneud y mwyaf o werth partneriaid • Cael ei integreiddio â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a'i ariannu drwyddo • Darparu sail gadarn ar gyfer diogelu gwydnwch ariannol hirdymor y sefydliad.

3	Er mwyn meithrin capasiti a chryfhau cydweithio gyda phartneriaid: • Dod â strategaeth economaidd fabwysiedig yn fyw ar bob lefel ledled Gwynedd • Gwireddu potensial gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned • Cynyddu gallu'r Cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau economaidd/cymdeithasol • Sicrhau fod Cytundeb Mantell Gwynedd yn cael ei weithredu a'i fonitro'n llawn

11.0 Gofyniad Perfformiad: Mae mesurau llywodraethu effeithiol ar waith

11.1 Ar y cyfan, daeth y panel i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith, gan nodi rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas ag egluro'r aliniad rhwng rheoli perfformiad a risg gydag amcanion strategol allweddol y Cyngor, eu parodrwydd i dderbyn risg, a'u blaenoriaethau trawsnewid dros y tymor byr, tymor canolig a'r hirdymor.

11.2 Mae gan y Cyngor gyfansoddiad a chynllun dirprwyo sy'n amlinellu'n glir beth yw'r cyfrifoldebau o ran gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyngor hefyd yn gwerthuso ei berfformiad ei hun yn rheolaidd yn erbyn fframwaith hunanwerthuso.

11.3 Mae'r Cyngor wedi darparu trosolwg i'r Panel o'i strwythurau llywodraethu, sydd wedi'u nodi yn y diagram isod. Mae'r diagram yn amlinellu sut mae proses hunanasesu'r Cyngor, Cynllun y Cyngor ac adolygiadau perfformiad blynyddol yn cysylltu â'r saith maes blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r elfennau hyn yn cysylltu â threfniadau monitro a herio perfformiad y Cyngor, a sut maent yn helpu i ddarparu blaenoriaethau o fewn pob maes.



11.4 Fe wnaeth y panel adolygu hunanasesiadau'r Cyngor a nodi eu bod yn darparu trosolwg eang o berfformiad. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn amlinellu bwriad y Cyngor i gyflwyno darlun cytbwys o berfformiad, gan amlinellu meysydd o lwyddiant a'r rhai sy'n ymofyn sylw pellach. Er bod y panel yn cydnabod gwerth y dull naratif hwn, nododd hefyd bod yr hunanasesiad yn rhoi rhagor o bwyslais ar sylwebaeth ddisgrifiadol a thematig yn hytrach na dadansoddiad gwerthusol, mesurau meintiol neu asesiadau effaith wedi'u dadansoddi'n glir.

11.5 Er bod yr hunanasesiad yn bodloni gofynion statudol felly, ystyriodd y panel y gellid gwellid gwella ei werth fel arf sicrwydd drwy gynyddu'r defnydd o ddata mesuradwy, darparu sylwebaeth gwerthuso gliriach a chasgliadau mwy eglur. Byddai cyflwyno statws RAG gyson ar draws blaenoriaethau a meysydd gwasanaeth yn gwella eglurder ymhellach, gan alluogi tueddiadau perfformiad, risgiau a meysydd sy'n ymofyn sylw i gael eu cyflwyno mewn modd mwy tryloyw a hygyrch.

Rheoli Perfformiad a Risg

11.6 Roedd y panel yn cydnabod bod Cyngor Gwynedd wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad a risg, a gefnogwyd gan gyfarfodydd adrannol strwythuredig bob deufis i ystyried cynnydd yn erbyn prosiectau'r Cyngor, perfformiad gwasanaeth dydd i ddydd a Chofrestr Risgiau Gorfforaethol y Cyngor. Mae allbynnau'r broses hon yn llywio'r adroddiadau perfformiad rheolaidd a gyflwynwyd gan Aelodau Cabinet yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

11.7 Er i'r panel glywed fod y rhan fwyaf o adrannau yn dilyn dull cymharol gyson o adrodd ar berfformiad, fel arfer drwy gynhyrchu dangosfwrdd cyffredinol a ategir gan graffiau a naratif, nid yw'r dull hwn eto'n cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y sefydliad. Erys amrywiad mewn nifer fach o adrannau, yn enwedig yn y systemau a'r dulliau a ddefnyddir i gasglu, llunio a chyflwyno gwybodaeth am berfformiad, gan arwain at lefelau gwahanol o ddadansoddi, adrodd a herio. Gyda'i gilydd, mae'r anghysondebau hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i gael golwg gydlynol ar draws y sefydliad ar gyflawni, pwysau perfformiad a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

11.8 Mae canllawiau a arweinir gan y sector yn tynnu sylw at y ffaith bod fframwaith risg a pherfformiad cydlynol, ledled y sefydliad, wedi'i gefnogi gan atebolrwydd clir, prosesau cyson a diwylliant cryf sy'n ymwybodol o risg, yn galluogi Cynghorau i wneud penderfyniadau gwell, ymateb yn effeithiol i ansicrwydd a chynnal ffocws ar flaenoriaethau hirdymor. O ystyried graddfa a chymhlethdod yr uchelgeisiau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol, mae'r panel o'r farn bod uno trefniadau rheoli perfformiad a chryfhau trefniadau risg corfforaethol yn feysydd pwysig i'w gwella.

11.9 Nododd y panel hefyd ymdrechion i wella rôl craffu mewn rheoli perfformiad trwy gyflwyno cyfleoedd her perfformiad o fis Ebrill 2025 ymlaen. Er nad yw'r broses hon ynghyd â newidiadau pellach mewn perthynas â chraffu wedi'u hymgorffori'n llawn eto, croesawyd y datblygiad hwn yn eang gan y rhai a ymgysylltodd â'r panel.

11.10 Canfu'r panel fod y Cyngor yn elwa o berthnasoedd gwaith adeiladol a phroffesiynol rhwng aelodau a swyddogion, wedi'u cefnogi gan drefniadau craffu a llywodraethu sefydledig. Er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl o'r trefniadau hyn, mae'r

panel yn ystyried ei bod yn bwysig bod pwyllgorau craffu a mecanweithiau herio eraill yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn dryloyw, gydag adborth clir ar sut mae herio, argymhellion craffu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi llywio penderfyniadau. Byddai hyn yn helpu i atgyfnerthu hyder mewn prosesau llywodraethu a chryfhau gweledded herio adeiladol ar draws y sefydliad.

11.11 Nododd y panel fod dull Cyngor Gwynedd o graffu wedi esblygu mewn ymateb i argymhellion gan Archwilio Cymru, gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Rhaglen Waith Craffu a Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Nododd y rhai a gyfwelwyd, er nad yw'r trefniadau craffu diwygiedig wedi'u hymgorffori'n llawn eto, eu bod yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad craffu. Fodd bynnag, mynegodd rai o'r rhai a gyfwelwyd ei bod yn well ganddynt y trefniadau blaenorol, gan amlygu'r pwysigrwydd bod y Cyngor yn canolbwyntio'n barhaus ar gryfhau effeithiolrwydd craffu.

11.12 Cyfarfu'r panel â Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor a chanfu, er bod y pwyllgor yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu sylfaenol gadarn, bod nifer o ffactorau yn cyfyngu ar ei effeithiolrwydd cyffredinol. Nododd y rhai a gyfwelwyd y gall amlder a hyd cyfarfodydd, ynghyd â rhaglenni gorlawn a phapurau hir, gyfyngu'r amser sydd ar gael ar gyfer ystyried materion risg uchel a strategol.

11.13 Er bod cefnogaeth swyddogion a chyfraniadau aelodau lleyg yn adeiladol, nododd y panel gyfleoedd i gryfhau prosesau cynefino a hyfforddi, yn ogystal â defnyddio arbenigedd aelodau lleyg mewn ffordd fwy systematig, yn enwedig wrth gynllunio rhaglenni gwaith, datblygu adroddiadau a pharatoi dogfennau llywodraethu allweddol fel y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

11.14 Er bod gan y Cyngor strategaeth risg sefydledig, nododd rai aelodau lleyg y byddai gwybodaeth fwy cyson ac amserol am risgiau lefel uchel, gan gynnwys risgiau i enw da, yn cefnogi eu rôl sicrwydd ymhellach.

11.15 Nododd y panel hefyd y gallai maint cymharol fawr y pwyllgor, o'i gymharu â normau'r sector, gyfrannu at yr heriau hyn, gan effeithio ar effeithlonrwydd, cynyddu gofynion hyfforddi ar gyfer aelodau lleyg ac etholedig, a rhoi pwysau ychwanegol ar raglenni. Gyda'i gilydd, mae'r materion hyn yn awgrymu, er bod trefniadau llywodraethu yn ddigonol, y byddai mireinio maint y pwyllgor, strwythur cyfarfodydd, trefniadau hyfforddi ac integreiddio arbenigedd aelodau lleyg yn gwella effeithiolrwydd cyffredinol y pwyllgor ac yn cryfhau sicrwydd llywodraethu ar draws y Cyngor. O ystyried rôl ganolog y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fewn fframwaith llywodraethu cyffredinol y Cyngor, mae'n bwysig bod y trefniadau hyn yn parhau i gael eu hadolygu a'u cryfhau er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn parhau i fod yn effeithiol wrth ddarparu sicrwydd annibynnol a thrwyadl.

11.16 Yn ehangach, clywodd y panel hefyd sylwadau am gwmpas a chydbwysedd y trefniadau craffu ar draws yr awdurdod, gan gynnwys yr her o graffu ar faterion addysg ac economaidd o fewn un pwyllgor. O ystyried graddfa a phwysigrwydd statudol y portffolio addysg, roedd rhai o'r farn y gall hyn gyfyngu ar ddyfnder y craffu a roddir i faterion economaidd.

11.17 Nododd y panel thema gyffredin gan gadeiryddion ac is-gadeiryddion y pwyllgorau y bu'n ymgysylltu â nhw, sef bod lle i gryfhau eu cysylltiad â'r broses lywodraethu ehangach, gan gynnwys derbyn gwybodaeth fwy cyson rhwng cyfarfodydd. Nododd y rhai a gyfwelwyd hefyd y gall bylchau hirach rhwng cylchoedd pwyllgorau, ar adegau, ohirio adborth ar faterion a godwyd, ac y gall defnyddio adroddiadau drafft yn hytrach nag adroddiadau terfynol gyfyngu ar eglurder ac effeithiolrwydd craffu.

11.18 Nododd y panel fod datblygu arferion craffu yn cael ei gefnogi drwy weithdai pwyllgor blynyddol i gytuno ar raglenni gwaith, yn cynnwys hyfforddiant gloywi ar egwyddorion craffu effeithiol.

11.19 Awgrymodd yr Aelodau fod yr hyfforddiant yn tueddu i ganolbwyntio ar y broses ac egwyddorion craffu, yn hytrach nag adnoddau ymarferol a thechnegau i gefnogi cwestiynu effeithiol. Pwysleisiodd y panel fod y ddau yn hanfodol ar gyfer pwyllgorau craffu llwyddiannus.

11.20 Yn 2025/26, addaswyd y cynnig hwn i gefnogi cyflwyniad trefniadau herio perfformiad newydd, gyda dwy sesiwn hyfforddi fis Mai 2025. Fodd bynnag, gwelodd y panel dystiolaeth fod y niferoedd yn amrywio

11.21 **Argymhellion**

4	Mae angen i Gyngor Gwynedd ddatblygu a chytuno ar strategaeth risg gorfforaethol, sy'n mynegi parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg a: • Sicrhau cofrestr a strategaeth risg gorfforaethol gyfoes • Diffinio rôl y tîm arweinyddiaeth, y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, y cabinet, a'r cyngor llawn wrth oruchwylio a monitro'r strategaeth a'r gofrestr yn rheolaidd • Ystyried anghenion hyfforddi a datblygu aelodau ar oruchwylio risg y Cyngor
5	Dylai Cyngor Gwynedd fireinio ag uno ei drefniadau rheoli perfformiad gyda ffocws penodol ar ddangos cyfraniadau tuag at: • Gyflawni'r Cynllun Corfforaethol • Cysylltu â risgiau Corfforaethol ac adrannol • Cynyddu cyfleoedd ar gyfer herio cyfoedion ar draws a thu hwnt i'r Cyngor

12.0 Cydnabyddiaeth

12.1 Hoffai'r panel a CLILC ddiolch i'r Cyngor, ei Aelodau a'i Swyddogion am y gefnogaeth wrth gydlynu ceisiadau am ddogfennau, ymatebion i ymholiadau, trefnu cyfarfodydd a gweithdai a darparu cefnogaeth ymatebol ar y safle.

12.2 Hoffai'r Panel hefyd ddiolch i'r sefydliadau, y partneriaid a'r rhai a gyfwelwyd y cawsant gwrdd â nhw tra roeddent ar y safle.